

Mor felys yw Iwtopia

“Y mae'r galon yn fwy ei thwyll na dim, a thu hwnt i iachâd, pwy sy'n ei deall hi?” (adn. 9)

Beth am ddarllen Jeremeia 17:1–10 ac yna myfyrio

Mae gwŷr a gwragedd yn ceisio delio gyda'r ffaith, fod yna rywbeth mwy pwysig yn ein disgwyl na'r hyn a gawn yma ar y ddaear, drwy ddehongli hyn fel ymdrech i sefydlu Iwtopia. A wyt ti'n gyfarwydd â'r gair 'Iwtopia'? Nid yw'r gair i'w glywed lawer bellach ond pan oeddwn i ar fy mhrifant, fe glywyd y gair yn aml iawn. Lle dychmygol yw Iwtopia lle mae'r amgylchiadau cymdeithasol a gwleidyddol yn berffaith, a phob peth o amgylch yn berffaith.

Yn y 1920au a'r 30au, roedd gwleidyddion yn credu yn gryf y medrent ddwyn y fath gyflwr i fodolaeth gyda chynnydd mewn addysg, gyda mwy o wybodaeth, gwell dealltwriaeth o rymoedd cymdeithasol. Yr ydym yn dod i'r pwynt lle byddwn yn medru darparu bywydau llawn a defnyddiol bob dydd. Yna, daeth yr Ail Ryfel Byd, ac yn sgîl hyn fe ddarganfuwyd fod un o'r cenhedloedd, oedd wedi ei breintio â'r addysg gorau, hefyd wedi bod yn llofruddio miliynau o Iddewon. Ni fu llawer o sôn am Iwtopia ers hynny. Ond, yn awr ac yn y man, mi fyddaf yn clywed rhai gwleidyddion eto yn ceisio creu math o nefoedd ar y ddaear. Tybiant fod hyn o fewn eu gallu petaent yn medru rheoli'r gwahanol amgylchiadau sydd yn effeithio ar hapusrwydd. Nid ydynt yn sylweddoli fod awyrgylch diwylliedig yn annigonol i ddelio â phechod y galon ddynol. Dro ar ôl tro, gwnaed ymdrech i wella'r amgylchiadau hyn ond, i raddau helaeth iawn, bu'r ymdrechion yn fethiant. Mae'n debyg ei bod yn wir y medrwch roi mochyn mewn parlwr, ond mae'n anos rhoi'r parlwr yn y mochyn.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Esec. 13:1–10; Jer. 6:14; 8:11

Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth yw y gri gyffredin?
2. Beth yw'r diwedd arferol?

Gweddi

O Dduw, pryd y bydd dynion a gwragedd yn sylweddoli'r angen i newid y galon ac mai dim ond ti sy'n gallu peri'r newid yna? Diolch i ti, Arglwydd, am y newid yr wyt ti wedi ei wneud i'm bywyd i. Amen.